



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2016/17



ISBN digidol 978 1 4734 5554 2
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2016
WG27868

Cynnwys

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2016/17	2
1.Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2016/17	2
2. Rhagolwg dangosol i nodi'r eitemau a allai fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18	7

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2016/17

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2016/17 gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'r cylch gwaith blynyddol yn ychwanegol at waith craidd Estyn o gynnal arolygiadau.

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

1. y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2016/17, sy'n cynnwys:
 - a) materion lle gofynnir i Estyn ddarparu adroddiadau manwl sy'n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig;
 - b) gweithgorau y gofynnir i Estyn eu cefnogi;
 - c) meysydd eraill lle gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor a chymorth;
 - d) adolygiadau o'r consortia addysg rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion.
2. Rhagolwg dangosol er mwyn nodi'r cyngor sy'n debygol o fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18.

1.Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2016/17

1a) Adroddiadau manwl sy'n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig

Caiff yr adolygiadau thematig sydd i'w cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2016/17 eu rhestru yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Mae'r rhestr yn cynnwys 14 eitem: 2 adolygiad mawr a fydd yn darparu adnoddau cymorth ymarferol ar gyfer y sector; 5 adolygiad safonol; a 7 adolygiad byr.

Mae 1 eitem gyfredol o gylchoedd gwaith blaenorol (*Mesur cynnydd dysgwyr a threfniadau pontio ar gyfer colegau arbenigol ac addysg bellach*) a 13 eitem newydd, a gynigir ac a ddatblygir ymhellach drwy drafodaethau rhwng uwch-staff yn Estyn a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhestr o eitemau yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sy'n gysylltiedig â'm blaenoriaethau ar gyfer addysg a hyfforddiant, gyda phwyslais ar ganlyniadau *Dyfodol Llwyddiannus*.

	Teitl	Diben	Blwyddyn/Cyfnod
1.	Mesur cynnydd dysgwyr a threfniadau pontio ar gyfer colegau arbenigol ac addysg bellach.	Bydd yr astudiaeth hon yn adolygu'r trefniadau ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr a threfniadau pontio mewn sefydliadau addysg bellach.	Blwyddyn 2 o 2 Cyfnod safonol
2.	Chwarae a dysgu gweithredol ym Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2: pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen.	Pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad mawr
3.	Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: pecyn cymorth ar gyfer ysgolion sy'n seiliedig ar arferion da cyfredol sydd ar waith mewn ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd.	Pecyn cymorth ar gyfer ysgolion sy'n seiliedig ar arferion da cyfredol sydd ar waith mewn ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth ac asesu.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad mawr
4.	Darparu addysg ynghylch perthynas iach mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru: pecyn cymorth ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.	Mewn datganiad ysgrifenedig, gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ymrwymiad y byddai'r adolygiad hwn yn digwydd yn 2016/17.	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod safonol
5.	Ansawdd y ddarpariaeth o addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn 2016/17.	Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru yn sgil Bil Aelod Preifat arfaethedig ynghylch Addysg Ariannol a Chynhwysiant.	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod byr
6.	Effeithiolrwydd ac effaith y canllawiau 'Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol' ar gyfer	Argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal yr	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod byr

	trefniadau cyflenwi mewn ysgolion cynradd.	adolygiad hwn yn sgil cyhoeddi'r canllawiau 'Rheoli presenoldeb yn effeithiol'. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar effeithiau absenoldeb penaethiaid mewn ysgolion cynradd.	
7.	Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar ddysgwyr agored i niwed mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn y brif ffrwd	Dyma argymhelliad mewn adroddiad ar weithredu'r mesur gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cafodd yr argymhelliad ei dderbyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd.	Blwyddyn 1 o 2 Cyfnod byr
8.	Effeithiolrwydd cyfranogiad disgyblion	Canllaw byr ar gyfer ysgolion, ar yr arferion gorau i alluogi disgyblion i gyfrannu'n ystyrlon i'r trafodaethau ar addysgu, dysgu a datblygu'r cwricwlwm.	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod byr
9.	Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Mae Llywodraeth Cymru am gael darlun cliriach o'r ddarpariaeth, yng ngoleuni'r toriadau cyllid.	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod byr
10.	Gyrfaoedd	Helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer rhoi cyngor ar yrfaoedd yng ngoleuni trefniadau'r cwricwlwm newydd.	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod byr
11.	Gwyddoniaeth: adroddiad pwnc penodol yn CA3 a CA4	Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar safonau a darpariaeth mewn perthynas â Gwyddoniaeth mewn ysgolion uwchradd yng Nghyfnod Allweddol 3 a BTEC a TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd yr adroddiad yn helpu i lywio'r gwaith ar y	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod safonol

		cwricwlwm newydd.	
12.	Dyniaethau: adroddiad pwnc penodol	Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar safonau a darpariaeth mewn Hanes a Daearyddiaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd yr adroddiad hwn yn helpu i lywio'r gwaith ar y cwricwlwm newydd.	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod safonol
13.	Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg yn CA2	Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar Wyddoniaeth a Thechnoleg yng Nghyfnod Allweddol 2. Bydd yn gydnaws â Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg, ac yn helpu i lywio'r gwaith ar y cwricwlwm newydd yn y maes hwn.	Blwyddyn 1 o 1 Cyfnod safonol
14.	Gwerthuso asesiadau athrawon	Ymweliadau â chyfarfodydd cymedroli yn ystod tymor yr haf i edrych ar ansawdd yr asesu a'r cymedroli.	Blwyddyn 1 o 2 Cyfnod byr

1b) Meysydd polisi lle gallai AdAS geisio cyngor neu gymorth yn eu cylch, a hynny drwy gyfrannu at waith gweithgorau

Mae Estyn yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o feysydd. Gellir gofyn i Estyn roi cymorth i amryw o wahanol weithgorau, drwy ddod yn rhan ohonynt, drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, neu drwy drafodaethau gydag uwch-swyddogion AdAS.

Ar gyfer 2016/17, rhagwelir y bydd Estyn yn rhan o'r gweithgorau canlynol, ond bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo:

- Grŵp Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer Gweithlu'r Blynnyddoedd Cynnar
- Fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Ymarferwyr ym Maes Addysg Sipsiwn-Teithwyr
- Grŵp Llywio Dysgu Creadigol
- Grŵp Llywio Mesurau Perfformiad Cyson
- Grŵp Arbenigol y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu

- Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm
- Gweithredu'r Adolygiad o'r Cwricwlwm: Bwrdd Newidiadau
- Grŵp Rhanddeiliaid ar gyfer Gweithredu Argymhellion Donaldson
- Grwpiau Pwnc ar gyfer Gweithredu Argymhellion Donaldson
- Grŵp Datblygu'r Gweithlu ar gyfer Gweithredu Argymhellion Donaldson
- Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen
- Grwpiau Pwnc TGAU
- Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang
- Bwrdd Prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol
- Grŵp Llywio Llais y Dysgwr i Gymru
- Fforwm Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol
- Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol
- Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol
- Grŵp Cynghori ar Ddysgu ar gyfer Troseddwy
- Grŵp Gweithredu'r Adolygiad – Cam 1
- Gweithgor Arloeswyr
- Grŵp Llywio'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol ar gyfer Ysgolion
- Grŵp y Strategaeth ar gyfer Datblygu Cymwysterau
- Bwrdd Cynghori Cymwysterau Cymru
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau
- Adolygiad o Safonau Proffesiynol Athrawon
- Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfaoedd
- Gweithgor ar gyfer Defnydd y Gymraeg

1c) Meysydd eraill lle gallai AdAS geisio cyngor a chymorth yn eu cylch

Mae Estyn hefyd yn cynnig cymorth parhaus ynghylch y meysydd canlynol:

- Cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion;
- Lleoliadau ar gyfer disgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig (AAA), lle mae caniatâd penodol gan Weinidog Cymru yn ofynnol o dan adran 347(5)(b) o Ddeddf Addysg 1996;
- Monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 347(1) o Ddeddf Addysg 1996, i dderbyn disgyblion â datganiadau AAA yn gyffredinol ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr; neu ysgol annibynnol sydd wedi'i chofrestru i dderbyn disgyblion sydd ag AAA o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 ac sydd â disgyblion AAA ar y gofrestr;
- Arolygu a monitro'n flynyddol holl golegau arbenigol ac annibynnol Cymru, a darparu arolygydd fel rhan o dîm ar gyfer yr arolygiadau neu ymweliadau monitro blynyddol o golegau arbenigol ac annibynnol yn Lloegr lle y caiff lleoedd 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru eu cyllido;

- Cofrestru ysgolion annibynnol o dan adran 163;
- Y Grant Amddifadedd Disgyblion;
- Y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion;
- Datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes;
- Ysgolion sy'n peri pryder;
- Gwaith dilynol o ran Awdurdodau Addysg Lleol;
- Enwebiadau ar gyfer Anrhydedd;
- Gwybodaeth gefndir ar gyfer ymweliadau Gweinidog ag ysgolion;
- Cwestiynau'r Cynulliad.

1d) Adolygu'r Consortia Addysg Rhanbarthol ar gyfer Gwella Ysgolion

Caiff pob un o'r pedwar consortiwm eu harolygu yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror 2016 a mis Gorffennaf 2016 fel a ganlyn:

Consortiwm Canol De Cymru – 29 Chwefror - 11 Mawrth

GWE – 18 - 29 Ebrill

Gwasanaeth Cyflawni Addysg – 16 - 27 Mai

ERW – 13 - 24 Mehefin

2. Rhagolwg dangosol i nodi'r eitemau a allai fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18

a. Eitemau a fydd yn parhau yn 2017/18

- Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar ddysgwyr agored i niwed mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn y brif ffrwd;
- Gwerthuso asesiadau athrawon a chymedroli.

b. Eitemau i'w hystyried yn 2017/18

- Yr arferion gorau ar gyfer ysgolion a cholegau wrth iddynt roi ar waith y cymwysterau TGAU newydd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Rhifedd a Bagloriaeth Cymru);

- Creu cysylltiadau rhwng asesu a chynllunio – canllaw ar arferion da ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd;
- Gwella addysgu a datblygu gallu – canllaw ar arferion da a phecyn cymorth ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd;
- Addysg grefyddol a moesol yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3;
- Pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3;
- Parodrwydd awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer bodloni gofynion y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd;
- Addysg Gorfforol – adroddiad pwnc penodol;
- Gwasanaethau ieuenctid – cyflwr y genedl;
- Effeithiolrwydd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yn y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol;
- Adolygiad o'r gwasanaethau cerdd i ysgolion;
- Cyfathrebu â rhieni disgyblion ysgol a darparu gwybodaeth ar eu cyfer.